

# Gwers 5 - Abraham yn symud i Ganaan

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Genesis 12:1-8 – 13:1-2

**Y**n ôl 'Mynegai i'r Beibl Cymraeg Newydd', ceir y gair 'Cyfamod' dros 300 gwaith yn Y Beibl gyda'r mwyafrif llethol o'r cyfeiriadau yn yr Hen Destament. Term Y Beibl am gytundeb cyfreithiol rhwymol yw 'cyfamod'. Defnyddir y term yn bennaf am y cytundeb a wnaeth Duw â'r ddynoliaeth ac fe'i hystyrid mor bwysig fel iddo gael ei ddefnyddio i ddisgrifio dau raniad Y Beibl; y gair Lladin am gyfamod yw 'Testamentum' sy'n golygu mai hanesion am y cytundebau Hen a Newydd yw'r Beibl. (Am drafodaeth lawnach ar 'Cyfamodau' gweler 'Llawlyfr Y Beibl' tudalen 198).

### Cyfamodau'r Hen Destament

**Noa:** Fel y gwelsom yn y wers flaenorol, addawodd Duw i Noa na fyddai dilyw yn difetha dynoliaeth byth eto (Genesis 9:11-17).

**Abram:** Gwnaeth Duw gyfamod ag Abram (Genesis 15). Byddai Duw'n sefydlu cenedl fawr o ddisgynyddion Abraham. Seliwyd y cyfamod gydag enwaedu (Genesis 17), a dywedodd Duw wrth Abram '..ni'th enwir di mwyach yn Abram, ond yn Abraham, gan imi dy wneud yn dad i lu o genhedloedd' (Genesis 17:5).

**Moses:** Yn dilyn rhyddhau'r genedl o gaethiwed yr Aifft cyhoeddodd Duw mai hwy fyddai ei bobl Ef ac mai Ef fyddai eu Duw hwy, a geilw arnynt i fod yn sanctaidd 'fel yr wyf fi yn sanctaidd'. I'w cynorthwyo, rhoddodd iddynt Y Deg Gorchymyn wedi ei naddu ar ddwy lechen. Cedwid y llechi mewn bocs arbennig, wedi ei wneud o goed acasia, sef Arch y Cyfamod (Exodus 25:10-22). Byddai'r Arch yn nodi presenoldeb Duw ymysg ei bobl.

**Galw Abraham:** Ar waethaf drygioni'r ddynoliaeth roedd Duw'n awyddus i ddangos ei ras. Roedd arno angen cenedl, pobl ddewisedig, y gallai lefaru wrthynt a thrwyddynt, fel y byddent hwy yn dystion iddo i genhedloedd eraill, a thrwyddynt hwy y deuai'r Meseia. Galwodd ddyn o'r enw Abram, un o ddisgynyddion Shem ac yn fab i Tera, i adael ei gartref 'i'r wlad a ddangosaf i ti', gyda'r addewid y byddai'n dod yn dad i genedl fawr (Genesis 12:1-3 a Hebreaid 11:8-19). Abraham yw person ffydd yr Hen Destament (gweler Hebreaid 11:8 ac Actau 7: 1-9). Nid oedd ganddo sylfaen grefyddol i bwysu arni, yn hytrach dim ond Duw a lefarodd wrtho ac a roddodd addewid iddo. Ac eto credodd Abraham yr addewid a gweithredodd gan adael ei gartref a theithio tua'r de heb syniad o gwbl i ble yr oedd Duw yn arwain. Dangosir ei ffydd ymhellach pan roddodd Duw ef ar brawf gan ofyn iddo offrymu ei fab annwyl, Isaac (Genesis 22). Er hynny, dangosodd ei wendidau fel dyn pan ddywedodd wrth Pharo mai ei chwaer oedd ei wraig Sarai (Genesis 15:10-20). Yn gyffredinol fodd bynnag, 'Credodd Abram yn yr Arglwydd, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo' (Genesis 15:6), ac am hynny ef yw un o arwyr mawr yr Hen Destament.

### Taith Abraham


1 Geni Abraham yn Ur y Caldeaid  
(Genesis 11:26)

2 Teulu Abraham yn teithio i Haran  
(Genesis 11:31)

3 Abraham yn ufuddhau i alwad Duw i symud i Ganaan ac yn ymsefydlu ym Methel.  
(Genesis 12:4-7)

4 Abraham yn symud i'r Aifft oherwydd newyn mawr yn y wlad  
(Genesis 12:10-20)

5 Abraham yn dychwelyd i Ganaan  
(Genesis 13:18)



Aeth Sarai, gwraig Abram, a Lot ei nai, gydag ef.  
Helpa Abram i ganfod ei ffordd o Ur i Wlad yr Addewid.  
Darllen Genesis 11:31-32 a 12:1-8.

# Gwers 5 – Abraham yn symud i Ganaan

## Abraham | Genesis 13

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 26



#### Gwers 5

Abraham yn symud i Ganaan

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed

Abraham yn symud i Ganaan tud 26

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7 oed

Taith Abraham tud 26

#### BEIBL LLIW STORI DUW

Taith Tera tud 19

Y wald oedd wedi'i haddo tud 20

#### BEIBL BACH STORI DUW

Y mab hapus tud 56

#### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Ffrind Duw tud 16

#### BEIBL LLIW Y PLANT

Taith Abram tud 32

#### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Bywyd newydd i Abraham tud 25

Lle newydd i Abraham fyw tud 26

#### BEIBL BACH I BLANT

'Rydwi'n addo ..

Stori Abraham tud 38

#### Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Duw yn galw Abraham tud 23

#### BEIBL LLIW Y TEULU

Y Patriarchiaid tud 63

Dechrau'r Daith tud 64

Gwlad yr Addewid tud 65

### I ddechrau

#### Gêm bendith a melltith

Bydd angen rhestr o 'fendithion' a melltithion'.

Mae'r plant yn sefyll mewn rhes yng nghanol yr ystafell. Dewiswch un wal fel wal y 'fendith' ac un arall fel wal y 'felltith.' Darllenwch y rhestr isod o fendithion a melltithion, un ar y tro. Ar ôl clywed un frawddeg dylai'r plant benderfynu ai bendith neu felltith ydyw ac yna rhedeg/sgipio/cropian/hercio at y wal berthnasol.

Esboniwch cyn cychwyn bod 'bendith' yn golygu 'rhywbeth da' a bod 'melltith' yn golygu 'rhywbeth drwg.'

Mae Mam yn gwneud eich hoff bryd bwyd. Bendith

Mae rhywun yn dwyn eich cas bensiliau o'r ysgol. Melltith

Mae ffrind yn dweud celwydd amdanoch. Melltith

Mae rhywun yn eich herio. Melltith

Rydych yn cael gwahoddiad i aros yn nhŷ ffrind. Bendith

Mae pawb yn eich canmol am ennill ras yn chwaraeon yr Urdd. Bendith

Mae eich ffrind gorau wedi pwdu a gwrthod siarad â chi. Melltith

Mae eich chwaer yn eich helpu gyda'ch gwaith cartref. Bendith

Mae rhywun yn benthg CDd gennych a'i dorri. Melltith

Rydych yn cael dod â ffrind adref o'r ysgol i chwarae. Bendith.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes am Dduw heddiw yn addo llawer o fendithion i ddyn o'r enw Abraham a'i deulu.

### Yr Hanes ...

Bydd angen 'Beibl Gweithgaredd y Plant' neu Feibl, Plant addas; Beiblau; y lleoliadau; Blutac; 'props' (dewisol); bag o bethau 'da' i'w rhannu.

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun. O flaen llaw, copi'wch y lleoliadau canlynol a'r cyfeiriadau Beiblaidd ar ddarnau unigol o bapur a'u gosod ar draws yr ystafell. Byddai'n dda, os yn bosibl, ychwanegu'r 'props' sy'n cael eu hawgrymu i greu diddordeb. Mae gan 'Beibl Lliw y Plant' ddarluniau hyfryd o'r hanes hwn (tud.32). Hefyd, bydd angen bag bach sy'n cynnwys rhywbeth neis ar gyfer pawb yn barod ar gyfer cymhwyso'r hanes.

### Lleoliadau:

1. Haran. Genesis 11, adnod 31 a phenodau 12:1,4,5. Prop-bagiau/paciau. Trafod: Pam, yn eich tŷ chi, y mae Abraham yn fodlon gwrando ar Dduw a gadael ei gartref?

2. Shechem. Genesis 12:6, 7. Prop - planhigyn/cerrig. Trafod: Pam adeiladodd Abraham allor?

3. Yr Aifft. Genesis 12:10-13. Prop-drych. Trafod: Pam ddywedodd

Abraham gelwydd am ei wraig?

4. De Canaan. Genesis 13:1-9. Prop- teganau meddal defaid. Trafod: Beth yw eich barn chi am sut y bu i Abraham ddatrys y broblem rhwng y gweision?

5. Hebron. Genesis 13:18 a phennod 15:1-5. Prop-pabell (blanced dros cadeiriau). Bydd angen codi'r babell cyn symud i'r lleoliad nesaf i fynd â hi gyda chi. Trafod: Ydych chi'n deall adnod 6?

6. Gerar. Genesis 20:1. Prop-y flanced o leoliad 5 a dol fel babi – Isaac. Trafod: oedd Duw wedi cadw ei addewidion i Abraham? Cael plentyn yw'r cam cyntaf i'r cwbl cael ei wireddu.

Adroddwch hanes Abraham yn symud o Haran i Ganaan gan symud o un lleoliad i'r llall, gan chwilio am y cyfeiriadau Beiblaidd, meimio'r digwyddiad a chymryd amser i sgwrsio ger pob lleoliad am y pwyntiau trafod. Gorffennwch trwy eistedd o dan y babell i drafod hanes Abraham, ei ufudd-dod a'i barodrwydd i gredu Duw.

### Cymhwysio

Dangoswch eich bag o 'bethau da'. Esboniwch fod gennych rywbeth ar gyfer pawb yn y bag, a'ch bod yn addo rhoi rhywbeth i bawb sy'n fodlon cyflawni tasg syml.

Rhowch gyfle i bawb gyflawni tasg cyn rhannu'r hyn sydd gennych. Pwysleiswch y ffaith eich bod yn cadw at eich addewid.

Roedd Duw wedi rhoi addewidion i Abraham – ydy'r plant yn cofio rhai ohonynt?

Ac roedd Abraham wedi credu Duw.

Sut fuasem ni'n ymateb pe bai Duw'n dweud wrthym am adael ein cartref a symud i le newydd heb ddweud wrthym ble y byddwn yn mynd? Ydyn ni'n credu Duw fel ag y gwnaeth Abraham? Mae Duw yn siarad gyda ni heddiw yn y Beibl, mae'n bwysig ein bod yn credu Duw fel ag y gwnaeth Abraham. Beth mae Duw yn ei ddweud wrthym yn y Beibl? Cyfeiriwch yn ôl at Genesis 15:6. Y peth pwysicaf yw bod Abraham yn credu Duw ac roedd ffydd Abraham yn plesio Duw ac yn golygu bod Duw yn cyfrif Abraham yn ffrind iddo.

### Dysgu Adnod

"Credodd Abraham, a chafodd ei dderbyn i berthynas iawn gyda Duw." (Genesis 15:6)

*Pêl feddal a chopi mawr o'r adnod.*

Darllenwch yr adnod sawl gwaith a gwnewch yn siŵr bod y plant yn deall beth yw ystyr yr adnod. Yn syml iawn, nid beth wnaeth Abraham oedd yn plesio Duw ond y ffaith ei fod yn credu Duw. Gan ei fod yn credu Duw (roedd ffydd ganddo) roedd yn barod i fod yn ufudd a gadael ei gartref.

Gosodwch y plant i sefyll mewn cylch a thafwch y bêl i un o'r plant wrth alw'r gair cyntaf o'r adnod. Mae'r plentyn yn taflu'r bêl yn ôl atoch ac yn ail adrodd y gair. Parhewch i daflu'r bêl o amgylch gan adrodd un gair ar y tro o'r adnod nes eich bod yn cwblhau'r adnod. Chwaraewch sawl tro nes bod y plant yn medru adrodd yr adnod heb eich arweiniad.

### Gweddi

Rhowch ddarn o bapur siâp carreg i bawb a gofynnwch iddynt ysgrifennu gweddi o ddiolch. Gosodwch y 'cerrig' mewn siâp allor gyda'r adnod wedi'i ysgrifennu islaw.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Duw yn gwneud cyfmod gydag Abram Tud. 8

### Cân

'Mae gan Abraham lawer o blant' – Golau ar y Gair 'Abraham'

### Gwerslyrau Golau ar y Gair

Abraham: Ffrind Duw

### Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A – Abraham

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 4: Abraham Ffrind Duw

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 266

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 4: Rydw i'n addo...

### Llyfrau Stori

Pam fod Sara'n Chwerthin 75c  
Cyfres y Pysgodyn Bach: Abraham 35c

